# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6518

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Medi 2020

Amser: 13.30 - 16.00

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Christianne Glossop, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Dean Medcraft, Llywodraeth Cymru<br>Tim Render, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Katy Orford (Ymchwilydd)<br>Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 COVID-19: Sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Bu'r Aelodau yn holi Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'i swyddogion am Covid-19 ac ymateb ei hadran hyd yma i'r pandemig.

## 3 COVID-19: Parhau gyda sesiwn graffu Llywodraeth Cymru

3.1 Parhaodd yr Aelodau i holi Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'i swyddogion am Covid-19 ac ymateb ei hadran hyd yma i'r pandemig.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn dilyn sesiwn dystiolaeth 9 Gorffennaf 2020 ar ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng Covid-19

4.2 Gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn sesiwn dystiolaeth 9 Gorffennaf 2020 ar ymateb y Llywodraeth i'r argyfwng Covid-19

4.3 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - Prynu Gwybodus a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

4.4 Ymateb Llywodraeth Cymru at lythyr y Cadeirydd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Pysgodfeydd

4.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU

4.6 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol i'r Bil Amaethyddiaeth

4.7 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch fframwaith deddfwriaethol cynllun y taliad sylfaenol a chymorth gwledig o 2021

4.8 Gohebiaeth rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020

4.9 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

4.10 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

4.11 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

4.12 Gohebiaeth gan David Hughes mewn perthynas â golygu genynnau

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 24 Medi 2020

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitemau 2 a 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn graffu. Cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog i gael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 7 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, a chytunodd arno.

## 8 Trafodaeth ar flaenraglen waith drafft y Pwyllgor

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytunodd arni.